Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:** Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

Mai 2025

Ar 10 Rhagfyr 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Hawliau Cyflogaeth.

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 7 Mawrth 2025.

Ar 18 Chwefror 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddyddiad cau newydd i'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad ar y memoranda sy'n ymwneud â'r Bil, sef 28 Mawrth 2025.

Ar 13 Mai 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes i wahodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ystyried y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth, a chyflwyno adroddiad arnynt.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ymestyn y dyddiad cau i bob pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memoranda sy'n ymwneud â'r bil, erbyn 20 Mehefin 2025.